Newidwyr a Dweud Straeon

"To speak a true word is to transform the world"

Paulo Freire

Ydych chi'n ystyried syniadau newydd fyddai'n gallu helpu symud tuag at fyd mwy cyfiawn a thosturiol?

Hoffech chi ddysgu sut i gyfleu'r syniadau hyn mewn ffordd rymus a dilys?

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Ymunwch â ni ar weithdy penwythnos i ystyried grym straeon er mwyn creu newid cymdeithasol cadarnhaol.

Trwy gemau ac ymarferion mewn amgylchfyd llawn hwyl a chefnogol, gellir dysgu:

· Sut i feithrin presenoldeb a dilysrwydd

· Sut i addasu deunydd er mwyn cadw sylw

· Sut i gysylltu â'ch dewis gynulleidfa

· Sut i gyfleu'r prif negeseuon sy'n gallu arwain at weithredu a thrawsnewid

17/18 Mawrth

9.30 - 5.00

Media Resource Centre

Llandrindod Wells

Cost: £ 24 (bwrsariaethau ar gael)

FFÔN: 01982 553398 admin@powystransition.co.uk

MAE'N HANFODOL ARCHEBU LLE YMLAEN LLAW

PAVO
Powys Association of Voluntary Organisations

Storïwyr – dyna yw bodau dynol

Straeon yw sylfaen ein byd. Maent yn helpu gwneud synnwyr o ddigwyddiadau ac yn ein galluogi i gyfleu'r hyn sy'n bwysig. Mae straeon yn golygu ein bod yn gallu 'cyfleu ystyr' ac fel y cyfryw gellir eu defnyddio i'n cysylltu neu ein rhannu.

Gall newidwyr ddefnyddio grym y ddawn dweud straeon wrth siapio byd sy'n gyfiawn, yn dosturiol ac yn ffynnu. O ddatblygu'r gallu i siarad mewn ffordd ddilys, byddwn yn gallu trawsnewid ein gilydd mewn ffyrdd amrywiol.

"Now I finally understand what storytelling is about."

Joanna Flanagan

Gall pawb ddysgu sut i ddweud stori dda...

Yn y gweithdy hwn byddwn yn ystyried hanfodion cyfleu straeon mewn ffordd effeithiol. Bydd cyfle i ddysgu sut i 'greu llun trwy eiriau' a llunio hanesion cofiadwy.

Trwy ddefnyddio gemau ac ymarferion byddwn yn meithrin presenoldeb a naturioldeb, yn gallu mynegi ein hunain yn well - ac yn anad dim - byddwn yn mwynhau'r profiad o fod o flaen cynulleidfa. Gan ei fod yn brofiad mor bleserus, fyddwch chi ddim yn sylweddoli eich bod yn dysgu!

Storïwr, hwylusydd a threfnydd cymunedol yw Inez Aponte, gydag 20 mlynedd o brofiad mewn rhedeg gweithdai ar gyfer storïwyr a newidwyr ar draws y byd.

Mae'n defnyddio dulliau chwarae ac addasu ar y pryd i greu amgylchfyd dysgu diogel sy'n caniatáu i ddoniau naturiol pob unigolyn ddod i'r amlwg.

Nid oes angen unrhyw brofiad blaenorol.